

# CWESTIYNAU CWIS:
## Bioleg - Atgenhedlu: L5-7




1: Ysgrifenna'r gair coll yn y bwlch cywir.

**Fislifol**
**Ceilliau**
**Glasoed**
**Bronnau**
**Hormonau**
**Ocsigen**

Mae'r corff yn ysgogi'r corff i dyfu mwy yn ystod llencyndod ar ôl y cyfnod o'r enw ___________________________. Mae'r chwarren bitwidol ar waelod yr ymennydd yn rhyddhau ___________________________ i'r llif gwaed sy'n arwain at nodweddion rhywiol eilaidd. Mae merched yn ymateb trwy ddechrau cylchred __________________________ a gwelir newidiadau graddol yn y corff. Mae'r cluniau yn lledu, haenau o fraster yn cael eu dyddodi ac mae __________________________ yn datblygu. Mewn bechgyn, mae'r __________________________ yn dechrau cynhyrchu sberm, yna mae cyhyrau'r corff yn datblygu, y llais yn dyfnhau ac mae cryn dipyn o flew yn tyfu ar y wyneb a'r corff.





©BBC

Cysyllta'r hanner brawddegau 2-6 gyda'u partneriaid (A-CH).
Ysgrifenna'r ateb cywir ym mhob blwch.

**A - yn cael ei benderfynu gan y sberm.**
**B - yn cael ei lenwi gyda hylif i amddiffyn y ffoetws.**
**C - mae ceg y groth yn ymledu.**
**CH - ofwliad.**
**D - brych i'r ffoetws.**

2: Yr enw am y broses o ryddhau'r wy ar Ddiwrnod 14 ...

3: Mae rhyw embryo dynol ...


4: Mae bwyd ac ocsigen yn pasio trwy'r ...

5: Mewn genedigaeth mae'r groth yn cyfangu ac ...

6: Yr amnion yw pilen sydd ...


©BBC


# ATEBION CWIS: Bioleg - Atgenhedlu: L5-7




1: Ysgrifenna'r gair coll yn y bwlch cywir.

**Fislifol**
**Ceilliau**
**Glasoed**
**Bronnau**
**Hormonau**
**Ocsigen**

Mae'r corff yn ysgogi'r corff i dyfu mwy yn ystod llencyndod ar ôl y cyfnod o'r enw **glasoed** . Mae'r chwarren bitwidol ar waelod yr ymennydd yn rhyddhau **hormonau** i'r llif gwaed sy'n arwain at nodweddion rhywiol eilaidd. Mae merched yn ymateb trwy ddechrau cylchred **fislifol** a gwelir newidiadau graddol yn y corff. Mae'r cluniau yn lledu, haenau o fraster yn cael eu dyddodi ac mae **bronnau** yn datblygu. Mewn bechgyn, mae'r **ceilliau** yn dechrau cynhyrchu sberm, yna mae cyhyrau'r corff yn datblygu, y llais yn dyfnhau ac mae cryn dipyn o flew yn tyfu ar y wyneb a'r corff.






©BBC

Cysyllta'r hanner brawddegau 2-6 gyda'u partneriaid (A-CH).
Ysgrifenna'r ateb cywir ym mhob blwch.

**A - yn cael ei benderfynu gan y sberm.**
**B - yn cael ei lenwi gyda hylif i amddiffyn y ffoetws.**
**C - mae ceg y groth yn ymledu.**
**CH - ofwliad.**
**D - brych i'r ffoetws.**

2: Yr enw am y broses o ryddhau'r wy ar Ddiwrnod 14 ...

**CH - ofwliad.**

3: Mae rhyw embryo dynol ...

**A - yn cael ei benderfynu gan y sberm.**

4: Mae bwyd ac ocsigen yn pasio trwy'r ...

**D - brych i'r ffoetws.**

5: Mewn genedigaeth mae'r groth yn cyfangu ac ...

**C - mae ceg y groth yn ymledu.**

6: Yr amnion yw pilen sydd ...

**B - yn cael ei lenwi gyda hylif i amddiffyn y ffoetws.**


©BBC